

## FLEETWOOD, WILLIAM (1656 - 1723), esgob a hynafiaethydd



**Enw:** William Fleetwood  
**Dyddiad geni:** 1656  
**Dyddiad marw:** 1723  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob a hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ar ddydd Calan 1656, a bu farw 4 Awst 1723; y mae ysgrif lawn arno yn y *D.N.B.* Bu'n esgob Llanelwy 1708-14, ac wedyn yn esgob Ely; yr oedd yn Chwig selog, a dioddefodd am hynny ym mlynnyddoedd diwethaf Anne. Fel esgob Llanelwy, yr oedd 'ymhell uwchlaw safonau ei gyfnod'; yn ei siars yn 1710 anogodd ei offeiriaid i bregethu yn Gymraeg. Ymddiddorodd yn hanes yr esgobaeth, ac y mae nodiadau ganddo ar y pwnc hwnnw yn llyfrgell plas Llanelwy; rhoes lawer o help i **Browne Willis** a hynafiaethwyr eraill; ac yn 1713 cyhoeddodd lyfr, *The life and miracles of St. Wenefrede*, yn ymosod ar y pererindota i Ffynnon Wenffrewi. Yr oedd yn bregethwr hynod huawdl, a chyhoeddwyd nifer o'i bregethau.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Fleetwood](#)

### Gweithiau

William Fleetwood, *The Bishop of St. Asaph's charge to the clergy of that diocese, in 1710. And now made publick, by His Lordship's permission*(London 1712)

William Fleetwood, James Davies (cyf.), Dafydd Lewys (gol.), *Pregeth a bregethwyd ynghapel Ty-Ely yn Holbourn yn Llundain, ar Ddydd Merchur ym Mehefin y 7, 1716. Sef Dydd y Diolchgarwch Cyhoeddus am fendith Duw ar gynghorion ac arfeu ei fawrhydi yn llonyddu y gwrthryfel annaturiol diweddar* (Mwythig 1716)

William Fleetwood, Michael Jones (cyf.), *Y cymmunwr ystyriol, neu, Eglurhad athrawiaeth sacrament Swpper yr Arglwydd yn ei holl rannau, allan o Weinidogaeth y Cymmun. Mewn ymddiddan rhwng Gŀur Eglwysig ag un o'i blwyfolion* (Llundain 1716)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [49248091](#)

Wikidata: [Q8009143](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). FLEETWOOD, WILLIAM (1656 - 1723), esgob a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-FLEE-WIL-1656>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION

